

Pwyllgor Materion Ewropeaidd

Dyddiad	Dydd Mercher Mis Hydref 31fed 2001
Amser	9.00am
Lleoliad	Ystafell Pwyllgor 3, Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Effeithiau'r Gyfarwyddiaeth Gweithfeydd Hylosgiad Mawr a'r Gyfarwyddiaeth Nenfydau Allyriannau Cenedlaethol ar Orsaf Bwer Aberddawan**Mater**

Mae'r papur hwn yn grynodedb o effeithiau posibl y Gyfarwyddiaeth Gweithfeydd Hylosgiad Mawr (LCPD), y cytunwyd arni yn ddiweddar, a'r Gyfarwyddiaeth Nenfydau Allyriannau Cenedlaethol (NECD) newydd ar ddyfodol Gorsaf Bwer Aberddawan.

Cefndir

Ar 2 Awst 2001 cymododd Cyngor Ewrop a Senedd Ewrop ar yr LCPD a'r NECD.

Nod yr LCPD ddiwygiedig yw lleihau asideiddio, osôn lefel y ddaear a gronynnau drwy gyfyngu ar allyriannau o ddiocsid sylffwr (SO₂), ocsidiau nitrogen (NO_x) a llwch (defnydd gronynnol – PM) o weithfeydd hylosgiad mawr newydd a 'phresennol' (yn bennaf gorsafoedd per, boeleri purfeydd a boeleri mawr mewn diwydiant). Mae SO₂ a NO_x yn cyfrannu llawer i ddyddodiad asid, sy'n asideiddio priddoedd a chyrrff dr croyw, yn gwneud niwed i blanhigion a chynefinoedd dr, ac yn rhydu deunyddiau adeiladu. Mae NO_x yn adweithio gyda chyfansoddion organig anwedol ym mhresenoldeb golau'r hawl i ffurfio osôn a all effeithio'n andwyol ar iechyd dynol a'r ecosystemau.

Unwaith y bydd wedi'i thrawsosod i ddeddfwriaeth y DU, bydd yr LCPD ddiwygiedig yn rheoli allyriannau o weithfeydd a drwyddedir ar ôl eu trawsosod (gweithfeydd 'newydd-newydd') drwy werthoedd cyfyngu allyriannau llym (ELVau) yn seiliedig ar y technolegau diweddaraf. Bydd yn rhaid i weithfeydd 'newydd' (a drwyddedwyd ar ôl Gorffennaf 1987 ond cyn i'r Gyfarwyddiaeth gael ei thrawsosod) a gweithfeydd 'presennol' (a drwyddedwyd cyn 1987) fodloni ELVau sy'n adlewyrchu materion technegol ac economaidd sy'n gysylltiedig â gwneud gwelliannau i weithfeydd sydd eisoes yn gweithredu sy'n aml yn gymharol hen. O ran gweithfeydd

'presennol', mae gan Aelod-wladwriaethau y dewis i leihau allyriannau o dan gynllun cenedlaethol i leihau allyriannau (Cynllun Cenedlaethol).

Mae'r NECD yn gosod nenfydau allyriannau cenedlaethol ar gyfer amonia, ocsidiau nitrogen, diocsidiau sylffwr a chyfansoddion organig anweddol o'r holl ffynonellau y bydd yn rhaid eu gwireddu ar ôl 2010. Gall y difwynyddion y rhoddir sylw iddynt gan y cynnig hwn achosi ystod o effeithiau amgylcheddol niweidiol, yn aml ymhell o'u ffynhonnell. Y ddwy brif broblem y rhoddir sylw iddynt gan y cynnig yw asideiddio ac osôn lefel y ddaear. Yn ogystal â hyn, bydd ewtroffeiddio (gormod o gyfoethogi ecosystemau naturiol gan nitrogen) yn lleihau o ganlyniad i'r rheolaethau, ond ni chaiff yr effaith hon ei chynnwys yn amlwg yn y model optimeiddio a ddefnyddir i gynhyrchu'r nenfydau arfaethedig. Mae'n annhebygol y caiff yr NECD effaith benodol ar ddyfodol gorsaf bwer Aberddawan.

Mabwysiadwyd yr LCPD gan Senedd Ewrop a'r Cyngor ar 19 a 27 Medi 2001 yn y drefn honno. Disgwylir i'r gyfarwyddiaeth ddiwygiedig ddod i rym pan gaiff ei chyhoeddi yn y Cylchgrawn Swyddogol. Mae hyn yn debygol o ddigwydd erbyn diwedd hydref 2001.

Hanes

Cynigiodd Comisiwn Ewrop welliannau i'r LCPD ym mis Medi 1998 fel rhan o'i Strategaeth Asideiddio. Mabwysiadwyd safbwynt cyffredin gan y Cyngor ar y gwelliannau ar 9 Tachwedd 2000. Tynhaodd y safbwynt cyffredin yr ELVau ar gyfer gwaith 'newydd-newydd', ac anogodd eu datblygiad fel gosodiadau gwres a pher cyfunol. Mae'r driniaeth o waith 'presennol' wedi bod yn fwy dadleuol. Roedd y rhan fwyaf o'r Aelod-wladwriaethau a Senedd Ewrop yn ei ddarlleniad cyntaf yn dymuno i'r ELVau ar gyfer gweithfeydd 'newydd' fod yn berthnasol hefyd i'r gweithfeydd hn. Nid oedd hyn yn dderbyniol gan Aelod-wladwriaethau eraill, gan gynnwys y DU, am y gallai gorfodi ELVau ar y gweithfeydd hyn olygu goblygiadau difrifol i Ddiwydiannau Cyflenwi Trydan (ESlau) yr Aelod-wladwriaethau a'r glo a losgir. Daeth y Cyngor i gyfaddawd o ran ei safbwynt cyffredin fel y gallai Aelod-wladwriaethau naill ai gymhwyso'r ELVau ar gyfer y gwaith newydd yn y Gyfarwyddiaeth wreiddiol, neu leihau allyriannau o dan Gynllun Cenedlaethol, erbyn 1 Ionawr 2008. Gellir eithrio gwaith 'presennol' rhag gorfod cydymffurfio â'r ELVau, neu'r Cynllun Cenedlaethol, os na chaiff ei weithio am fwy na 20,000 o oriau ar ôl 1 Ionawr 2008.

Roedd gwelliannau ail ddarlleniad Senedd Ewrop i'r LCPD yn ceisio cynyddu llymder y cyfaddawd a wnaed ar waith hn, fel Aberddawan. Ymddengys bod y prif bwysau am newid wedi dod oddi wrth ASE yr Almaen a oedd yn poeni ynghylch allyriannau o weithfeydd ynni mewn gwledydd cyffiniol yn Nwyrain Ewrop a allai fod yn ymuno â Chyngor Ewrop yn fuan.

Byddai gwelliannau arfaethedig Senedd Ewrop wedi cynyddu costau lleihau allyriannau yn sylweddol a hynny am ychydig o fudd amgylcheddol.

Effeithiau ar Aberddawan

Mae cynllun y boeler yn Aberddawan yn unigryw yn y DU, ac fe'i cynlluniwyd yn benodol i drin glo ag anweddolrwydd isel. Roedd gan yr holl lo a ddefnyddiwyd yn Aberddawan, gan gynnwys y glo o waith glo lleol y Tr, lai na 10 y cant o gyfansoddion anweddol. Ni fyddai glo ag anweddolrwydd uwch yn addas i'r boeler.

Un o'r prif bryderon i Gymru oedd cael gwared ar y rhan-ddirywiad yn caniatáu i waith hylogiad mawr presennol (a drwyddedwyd cyn Gorffennaf 1987) sy'n llosgi glo ag anweddolrwydd isel i gwrdd ag allyriant ocsid nitrogen (NO_x) llai llym gwerth eithaf o $1300\text{mg}/\text{m}^3$. Mae'r ELV 'safonol' sydd â safbwynt cyffredin o $650\text{mg}/\text{m}^3$ yn cyfateb i berfformiad ar ôl gosod y dechneg lleihau allyriant sylfaenol mwyaf cost effeithiol (llosgwyr NO_x isel). Fodd bynnag ni ellir bodloni'r lefel hon yn Aberddawan gyda thechnoleg o'r fath, ac o'r herwydd cafwyd yr angen am ran-ddirywiad. Byddai cael gwared ar y rhan-ddirywiad hwn wedi peryglu dyfodol Aberddawan, gydag effaith andwyol o ganlyniad i hynny ar y diwydiant glo yng Nghymru.

Yn y cyfnod a arweiniodd at y cyfarfod cymodi lobïwyd ASEau gan weinidogion Cymru a swyddogion y DU i amlgu problemau posibl gwelliant Senedd Ewrop ar gyfer Aberddawan a'r diwydiant glo yng Nghymru. Yn ystod y cyfarfod cymodi brwydrodd y DU yn galed i gyrraedd cyfaddawd na fyddai'n cael effaith andwyol ar ddyfodol Aberddawan a chytunwyd ar y rhan-ddirywiad canlynol:

'Tan 1 Ionawr 2018, yn achos gweithfeydd a oedd yn y cyfnod 12 mis yn gorffen ar 1 Ionawr 2001 yn gweithredu ar, ac yn parhau i weithredu ar, danwydd solet y mae ei gynnwys anweddol yn llai na 10 y cant, bydd $1200\text{mg}/\text{Nm}^3$ yn gymwys.'

Opsiynau Cydymffurfio

Opsiwn 1 – Ymagwedd Gwerth Cyfyngu Allyriant

O dan yr ymagwedd ELV bydd yn rhaid i'r holl weithfeydd 'presennol' nad ydynt wedi dewis rhan-ddirywiad bywyd cyfyngedig, fodloni ELVau penodol ar gyfer NO_x , SO_2 a llwch erbyn dyddiadau penodol. Byddai cryn dipyn mwy o leihau allyriannau yn digwydd o dan yr ymagwedd ELV oherwydd bydd yn rhaid i bob gorsaf unigol sy'n gweithredu ar ôl 2008 gydymffurfio â'r ELVau yn unigol, ac ni fydd y gofynion yn llai o ganlyniad i gau neu leihau llwythau mewn gweithfeydd eraill. Fodd bynnag ni fyddai'n effeithio ar Aberddawan; byddai'r rhan-ddirywiad yn gymwys iddo.

Opsiwn 2 – Cynllun Lleihau Allyriannau Cenedlaethol

Bydd yn rhaid i Gynllun Cenedlaethol leihau cyfanswm blynyddol allyriannau o NO_x, SO₂ a llwch o weithfeydd ‘presennol’ (ac eithrio’r rhai a ddewisodd y rhan-ddirywiad bywyd cyfyngedig) i’r lefelau y byddent wedi eu cyrraedd pe byddai’r ELVau ar gyfer gweithfeydd ‘presennol’, sy’n gweithredu yn y flwyddyn 2000, wedi’u cymhwyso. Mae’r lefel ‘a fyddai wedi’i chyrraedd’ yn cymryd ffurf ‘yswigen’ ar gyfer pob difwynydd yn seiliedig ar amser gweithredu blynyddol gwirioneddol pob gwaith, y tanwydd a ddefnyddir a’r mewnbwn thermol (y cyfartaledd dros y pum mlynedd diwethaf o weithredu hyd at a chan gynnwys 2000).

Byddai Cynllun Cenedlaethol yn fwy hyblyg na’r ymagwedd ELV oherwydd gallai rhai gweithfeydd allyrru mwy na’r ELVau i’w cymharu â gweithfeydd eraill sy’n allyrru llai, naill ai oherwydd ymrwymadau sylweddol i leihau allyriannau, lleihau o ran ffactorau llwythi neu gau gweithfeydd. Fodd bynnag, ni ddylai cau gwaith sydd wedi’i gynnwys mewn Cynllun Cenedlaethol arwain at gynnydd yng nghyfanswm yr allyriannau blynyddol o’r gweithfeydd sydd ar ôl a gwmpesir gan y Cynllun Cenedlaethol.

Camau Nesaf

Mae’n rhaid i Aelod-wladwriaethau weithredu’r gofynion ar gyfer gwaith ‘newydd-newydd’ a ‘newydd’ o fewn 12 mis i’r LCPD ddod i rym, a rhaid iddynt sicrhau bod gwaith ‘presennol’ yn cydymffurfio â’r ELVau neu Gynllun Cenedlaethol erbyn 2008. Cyhoeddir dogfen ymgynghori ar yr opsiynau gweithredu ar gyfer trafodaeth gyhoeddus tua diwedd 2001. Bydd hyn yn cynnwys disgrifiad o gostau tebygol pob opsiwn; cynnwys posibl Cynllun Cenedlaethol; ac asesiad o sut y byddai’n gweithredu. Yn dilyn ymgynghoriad â chyfranddeiliaid a phartion â diddordeb, bydd y Llywodraeth a Gweinyddiaethau Datganoledig yn penderfynu pa un o’r ddau opsiwn gweithredu yw’r dull mwyaf effeithiol o weithredu’r LCPD ddiwygiedig ar gyfer gweithfeydd ‘presennol’ yn y DU. Os dewisir opsiwn y Cynllun Cenedlaethol, bydd yn rhaid ei gyflwyno i’r Comisiwn o fewn 2 flynedd i’r LCPD ddiwygiedig ddod i rym.